# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 5

DARPARIAETHAU NAD YDYNT OND YN GYMWYS I GONTRACTAU DIOGEL

## PENNOD 6

DARPARIAETHAU NAD YDYNT OND YN GYMWYS I GONTRACTAU DIOGEL GYDA LANDLORDIAID CYMUNEDOL

### 118 Trosglwyddo i ddeiliad contract diogel arall

(1) Caiff deiliad y contract o dan gontract diogel y mae'r landlord oddi tano yn landlord cymunedol drosglwyddo'r contract fel y disgrifir yn yr adran hon, ond dim ond os yw'r landlord yn cydsynio.

(2) Caiff deiliad y contract drosglwyddo'r contract i berson—

- (a) sydd, cyn y trosglwyddiad, yn ddeiliad contract o dan gontract diogel y mae'r landlord oddi tano yn landlord cymunedol, a
- (b) a fydd, yn union cyn y trosglwyddiad, yn peidio â bod yn ddeiliad y contract o dan y contract a grybwyllir ym mharagraff (a).

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract diogel y mae'r landlord oddi tano yn landlord cymunedol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 118 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 118 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 6 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

## 119 Trosglwyddo i ddeiliad contract diogel arall: cydsyniad y landlord

Pan fo landlord yn gwrthod cydsynio neu'n cydsynio yn ddarostyngedig i amodau i drosglwyddiad a ddisgrifir yn adran 118, mae'r hyn sy'n rhesymol at ddibenion adran 84 (cydsyniad y landlord) i'w benderfynu gan roi sylw i Atodlen 6.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I3** A. 119 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I4** A. 119 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, PENNOD 6 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 22 Mai 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5